


Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir

- ● ● ● Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir
- — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - - Hawl Tramwy Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- ☎ Ffôn Cyhoeddus
- 🚌 Arhosfan bysiau
- G Giât



Solfach Uchaf i Borth y Rhaw

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir

Parcio: Solfach Uchaf (SM798244) yn y man tynnu-i-mewn gyferbyn â'r eglwys

Hyd: 1.4 milltir (2.2 km) bob ffordd

Gradd: Gwastad gyda rhai graddiannau cymedrol

Arwyneb: Glaswellt a llwch ar yr arwyneb (mwdlyd pan yn wlyb)

Ffôn: Yn y man tynnu-i-mewn gyferbyn â'r Neuadd Goffa (SM801243)

Parciwch yn y man tynnu-i-mewn, ger y toiledau yn Solfach Uchaf gyferbyn â'r eglwys. Croeswch yr heol, trowch i'r chwith, heibio i'r eglwys ac yna throi i'r dde, gan gerdded heibio i'r Swyddfa Bost. Ewch ymlaen i fyny'r heol, sydd â graddiant fach, ac ewch tuag at y chwith at St Brides View. Ewch â'r fforc dde a pharhewch yn syth ymlaen heibio i nifer o westai.

Pan fydd y tarmac yn dod i ben, parhewch ar hyd trac glaswelltog, sydd â graddiannau o 1:10 i fyny ac i lawr am 55m. Ar ddiwedd y llwybr hwn, mae yna giât sy'n arwain at gae. Cadwch at ymyl y cae a phasiwch trwy giât arall ac arno i Llwybr yr Arfordir.

Yn yr olygfan, fe allwch weld Solfach Isaf a'r harbwr. Enw'r bae bach gyferbyn yw'r Gwadn ac mae yna olygfeydd hyfryd o'r clogwyni ar y man pellaf. Parhewch ar hyd Llwybr yr Arfordir. Yn gyffredinol, mae'r rhan yma'n wastad heblaw am rhai llethrau bach neu ganolig sy'n 1:25 i fyny am 75m, 1:20 i fyny am 45m a, tuag at Porth y Rhaw, disgyniad o 1:20 am 500m.

Wrth agosáu at Porth y Rhaw sylwch ar gaer mawr o'r Oes Haearn lle cafwyd cloddiadau archeolegol sylweddol wrth iddo falu'n raddol i mewn i'r môr. Mae'r disgyniad i Borth y Rhaw yn serth iawn, 1:8, ac fe all fod yn llithrig iawn.

